

## Tasg 2

## Creu llun

1. a. Edrychwch yn ofalus ar baentiadau Mary Lloyd Jones.
  - Sylwch ar gynnwys y lluniau.
  - Sylwch ar y siapiau.
  - Sylwch ar y lliwiau.
  - Sylwch ar yr arddull.
- b. Trafodwch y cynnwys, y siapiau a'r lliwiau mewn grŵp. Gwnewch nodiadau wrth i chi siarad.

- c. Cymharwch eich syniadau chi â syniadau grwpiau eraill.
2. Rydych chi'n mynd i ddefnyddio'r wybodaeth am gynnwys, siapiau, lliwiau ac arddull Mary Lloyd Jones i greu llun neu baentiad o'ch ardal.
    - a. Dewiswch rywle neu rywbeth yn eich ardal chi.
    - b. Gwnewch lun neu baentiad ohono, gan ddefnyddio arddull Mary Lloyd Jones.
    - c. Rhowch deitl i'r llun.
    - ch. Ar y dudalen nesaf, ysgrifennwch ddarn i'w egluro i'r grŵp.
    - d. Dywedwch pam rydych chi wedi dewis lliwiau penodol.

